OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1699 (Cy.160) (C.87)

GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU
Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2010

Gwnaed - - - - 24 Mehefin 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 74(2) a 75(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Mesur 2010" ("*the 2010 Measure*") yw Mesur Pant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Y diwrnod penodedig ar gyfer ardaloedd a bennir

2.—(1) Mae paragraff (2) o'r erthygl hon yn gymwys o ran yr ardaloedd awdurdod lleol a bennir yn erthygl 3.

(2) Daw'r darpariaethau hynny yn Rhan 3 o Fesur 2010 a nodir yn yr Atodlen i rym ar 1 Medi 2010.

Ardaloedd a bennir

3. Ardaloedd yr awdurdodau lleol a bennir at ddibenion erthygl 2 yw —

(a) Merthyr Tudful(**2**);

(b) Casnewydd;

(**1**) 2010 mccc. 1

(**2**) Yr ardaloedd awdurdod lleol a ddynodir yn ardaloedd a bennir yw'r rhai a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)